GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 23 Tachwedd 2022 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 2il Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm yr ail chwarter ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld tanwariant net o (£91,800) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **<u>Gweithwyr:</u>**

**<u>Chwarter 2: tanwariant (£46,552)</u>** *<u>Chwarter 1: tanwariant (£84,046)</u>*

Mae'r tanwariant yn seiliedig ar drosiant staff, gan gynnwys staff sydd ar secondiad a chyfnodau mamolaeth, yn ogystal â phroblemau recriwtio yn gyffredinol. Gwelwyd leihad yn y tanwariant a ragwelir, gan fod y sefyllfa staffio yn llawer cliriach erbyn hyn yn dilyn cychwyn y flwyddyn academaidd, gyda llai o ddibyniaeth ar grantiau allanol i gyfrannu at gostau amryw o staff craidd.

2.2 **<u>Adeilad:</u>**

**<u>Chwarter 2: gorwariant £25,367</u>** *<u>Chwarter 1: gorwariant £25,367</u>*

Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am rent o ddefnydd adeiladau GwE. Mae'r digwyddiadau hyn wedi ail-gychwyn ym mis Medi, a felly rhagwelir bydd y ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn, ond bydd diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant.

2.3 **<u>Cludiant:</u>**

**<u>Chwarter 2: tanwariant (£59,759)</u>** *<u>Chwarter 1: tanwariant (£46,771)</u>*

Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid-19, mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o deithio.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £437,503.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £529,303 ar ddiwedd 2022/23, wrth gynnwys y tanwariant a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 2il Chwarter.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad